Anthem.

YOUTH MUSIC

# Creu a dysgu cerddoriaeth yng Nghymru

## Sgwrs gyda phobl ifanc, Mai-Mehefin 2020

## Adroddiad terfynol




Awst 2020

# Mynegai


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Crynodeb a chanfyddiadau allweddol** | 3 |
| **2.** | **Ynglŷn â'r ymgynghoriad** | 6 |
| 2.1 | Pam wnaethom ni gynnal yr ymgynghoriad? | 6 |
| 2.2 | Pwy oedd yn rhan ohono? | 6 |
| 2.3 | Sut cafodd partneriaid eu dewis, a pha effaith gafodd Covid-19? | 6 |
| 2.4 | Sut gwnaethom ni gynnal yr ymgynghoriad? | 7 |
| **3.** | **Beth ddwedodd y bobl ifanc wrthym ni** | 9 |
| 3.1 | Hoff genres | 9 |
| 3.2 | Teithiau cerddorol | 9 |
| 3.3 | Sut mae cerddoriaeth yn eich ardal leol chi? | 11 |
| 3.4 | Beth wnaeth eich helpu chi? | 11 |
| 3.5 | Beth allai eich helpu chi mwy? | 13 |
| 3.6 | Ar beth ddylem ni ganolbwyntio? | 14 |
| **4.** | **Diolch** | 16 |
| **ATODIAD 1: Ynglŷn â'r bobl ifanc** | | |
| a) | Demograffeg | 17 |
| b) | Amgylchiadau | 18 |
| **ATODIAD 2: Ynglŷn â'r sefydliadau** | | 20 |

# 1. Crynodeb a chanfyddiadau allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o farn 45 o bobl ifanc rhwng 7 a 23 oed am greu a dysgu cerddoriaeth yng Nghymru. Beth wnaeth eu helpu; y rhwystrau maen nhw wedi'u hwynebu; a pha gymorth yr hoffen nhw ei weld yn y dyfodol. Fe wnaethon nhw roi eu barn drwy saith o sesiynau ymgynghori ar-lein rhwng mis Mai a mis Mehefin 2020.

Trefnwyd yr ymgynghoriad gan Anthem ac Youth Music, gan ddefnyddio'r ymarferydd llawrydd Anita Holford. Hwyluswyd y sesiynau gan Youth Cymru, a ddarparodd aelod o staff sy'n berson ifanc ac yn gerddor ei hun. Ysgrifennwyd adroddiad llawn gan Youth Cymru: ysgrifennwyd y crynodeb hwn gan Anita Holford.

## Beth wnaeth helpu

1. **Cymorth ac anogaeth gan deulu/ffrindiau**
   Siaradodd y bobl ifanc am gael eu hamgylchynu gan gerddoriaeth o oedran cynnar, gan gynnwys bod â pherthnasau a oedd yn chwarae offerynnau, gwrando ar gerddoriaeth gartref, dechrau gwersi cerddoriaeth a mynd i gyngherddau a sioeau cerdd. Fodd bynnag, yn y grŵp hŷn o artistiaid Hip Hop, nad oedden nhw'n teimlo'n hyderus mewn cerddoriaeth hyd at eu harddegau hŷn, ffrindiau wnaeth ddylanwadu ar y ffaith iddyn nhw gymryd rhan.

2. **Y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw'n lleol, a'r athrawon/mentoriaid/gweithwyr ieuenctid a fu'n ymwneud â hwy**
   Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ymwneud yn weithredol â cherddoriaeth mewn rhyw ffordd, gan gynnwys gwersi offerynnol/lleisiol yn yr ysgol, creu a rhyddhau eu cerddoriaeth eu hunain a hynny'n aml gan ddefnyddio technoleg cerdd, bod yn rhan o gorau a cherddorfeydd, neu berfformio a chystadlu mewn cystadlaethau. Soniwyd am y cymorth ychwanegol a gawsant drwy'r gweithgareddau hyn, fel mynediad i stiwdios recordio, gwybodaeth am gyfleoedd perfformio a chyfleoedd eraill, ac anogaeth a chyngor.

3. **Gweld perfformwyr a pherfformiadau er mwyn cael ysbrydoliaeth a dyhead**
   Soniodd llawer am adegau dylanwadol pan welson nhw berfformiwr llawn ysbrydoliaeth a phenderfynu eu bod nhw eisiau dysgu cerddoriaeth.

4. **Y cyfle i archwilio a chreu cerddoriaeth**
   Soniodd nifer o bobl ifanc am bwysigrwydd gallu rhoi cynnig ar wahanol offerynnau neu ffyrdd i greu cerddoriaeth, a phenderfynu ar y ffordd maen nhw am greu cerddoriaeth. Soniodd rhai hefyd am bwysigrwydd creu eu cerddoriaeth eu hunain (cyfansoddi caneuon, creu darnau gan ddefnyddio technoleg cerdd).

5. **Cyfleoedd i berfformio a gweld eraill yn perfformio / cwrdd ag eraill**
   Soniodd llawer fod cwrdd, perfformio a chreu cerddoriaeth gydag eraill wedi'u helpu o ran ysgogiad, cymhelliad, brwdfrydedd a datblygu.

Thema allweddol (ar draws gwahanol oedrannau a lleoliadau) oedd sut oedd cerddoriaeth wedi helpu'r bobl ifanc i ddatblygu hyder. Roedd y bobl ifanc hefyd yn gweld cyswllt rhwng cerddoriaeth â'u llesiant, gan gynnwys eu helpu i ddeall a mynegi eu hemosiynau.

## Beth fu'r rhwystrau?

1. **Cost**
   Thema a gododd dro ar ôl tro (ymysg gwahanol oedrannau a lleoliadau) oedd yr angen am gyfleoedd fforddiadwy a hygyrch. Soniodd y bobl ifanc am gostau offerynnau, meddalwedd, platfformau ffrydio, teithio a defnyddio stiwdios recordio a sut gallai rhwystrau ariannol leihau mynediad i gerddoriaeth.

2. **Dewis**
   Nododd rhai pobl ifanc hefyd mai cyfyngedig oedd y dewis o offerynnau neu ffyrdd i greu cerddoriaeth a gynigwyd iddyn nhw – er enghraifft, nid yr offeryn a gynigwyd iddyn nhw i gychwyn oedd yr offeryn y byddent wedi dymuno ei chwarae.

3. **Diffyg cyfleoedd addas yn yr ardal**
   Cyfeiriodd pobl ifanc at hyn yng ngogledd ac yn ne Cymru. Meddent nad oedd cyfleodd lleol yn aml (dysgu a pherfformio), ac nad oedd modd iddyn nhw fynd i brif drefi a dinasoedd, am nad oedd ganddyn nhw gar, neu oherwydd cost petrol neu gludiant cyhoeddus.

4. **Ysgolion heb werthfawrogi cerddoriaeth, neu'n darparu dewisiadau cyfyngedig**

Soniodd pobl ifanc o bob sesiwn am sut oedden nhw'n cael mynediad i gyfleoedd cerddoriaeth yn yr ysgol, gan gynnwys gwersi cerddoriaeth, sioeau ysgol, côr, cerddorfa, cystadlaethau, teithio i fynd i weithgareddau a mynediad i feddalwedd cerddoriaeth. Fodd bynnag, soniodd llawer am yr angen am amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cerddoriaeth yn yr ysgol, a'r angen i gerddoriaeth gael ei gwerthfawrogi mwy gan ysgolion.

**5. Diffyg cyfleoedd wedi'u teilwra**

Mae hyn yn berthnasol i'r holl bobl ifanc (wedi'u teilwra ar sail chwaeth a diddordebau cerddorol, dewis offeryn/dull) ond yn arbennig pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu.

## Beth yw'r anghenion, beth fyddai'n helpu?

Yn ychwanegol at yr anghenion sydd wedi'u hamlinellu uchod, siaradodd y bobl ifanc am y canlynol:

1. **Cyfleoedd i gwrdd â cherddorion eraill a dysgu ganddyn nhw**

   Pan ofynnwyd iddyn nhw beth oedden nhw'n meddwl ddylai Anthem ac Youth Music ganolbwyntio arno, o restr o ddewisiadau, dyma oedd yr ymateb mwyaf poblogaidd:

   ***'cael mynediad i leoedd i greu cerddoriaeth (darparu neu roi gwybod i bobl ifanc am leoedd lle gall pobl ifanc fynd i gwrdd â cherddoriaeth ifanc eraill, a dysgu, creu, ymarfer a recordio cerddoriaeth)'.***

2. **Arweiniad ar sut i hyrwyddo eu cerddoriaeth a chyfleoedd i wneud hynny**
   Er enghraifft, sgyrsiau gan weithwyr proffesiynol ym myd cerddoriaeth yn ogystal â chyfleoedd i bobl ifanc gael perfformio ledled y wlad.

3. **Arweiniad a chyfleoedd ynghylch gyrfaoedd ym myd cerddoriaeth**
   Llwybrau a rolau amrywiol yn y diwydiant, nid fel cerddor yn unig.

4. **Sicrhau cyfleoedd cerddoriaeth amrywiol**
   Cynorthwyo ysgolion/athrawon/eraill i groesawu ac annog diddordebau cerddorol pobl ifanc a ffyrdd i greu cerddoriaeth – amrywiaeth ehangach o genres, offerynnau, dulliau creu cerddoriaeth.

5. **Mwy o fynediad i dechnoleg cerdd a stiwdios recordio**
   Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r profiad o allu ymarfer a recordio gan ddefnyddio technoleg cerddoriaeth, yn arbennig mewn stiwdio, ond anodd oedd dod o hyd i gyfleusterau ar gost isel sy'n addas i bobl ifanc.

6. **Darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anableddau**
   Drwy ymgynghori â phobl ifanc awtistig a phobl ifanc ag anableddau dysgu, tynnwyd sylw at nifer o rwystrau gan gynnwys sensitifrwydd y synhwyrau (i gerddoriaeth uchel a goleuadau llachar) a theimlad o gael eich llethu neu fod yn anghyfforddus mewn grwpiau mawr o bobl. Byddai gofodau diogel, a gweithio mewn grwpiau bach neu un-i-un yn helpu.

Thema allweddol oedd bod **ar bobl ifanc angen i ysgolion a rhieni ddeall gwerth ac effaith cerddoriaeth** (yn bersonol a chymdeithasol), yn ogystal â photensial y maes ar gyfer gyrfaoedd. Awgrymodd un person ifanc gael llysgenhadon yn yr ysgol uwchradd – pobl ifanc o'r brifysgol neu'r diwydiant (fel llysgenhadon STEM).

Rydym yn sylweddoli, yn sgil natur y sefydliadau yr oedd modd i ni bartneru â nhw, a'r ffaith i'r sesiynau gael eu cynnal ar-lein, bod bwlch o ran deall profiadau:

- pobl ifanc a fethodd â chyfranogi mewn creu a dysgu cerddoriaeth
- pobl ifanc sydd ag anabledd corfforol a rhai sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog
- pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a rhai sydd heb fynediad digidol
- pobl ifanc o ganolbarth Cymru
- rhai sydd â phrofiad o fyw mewn gofal
- pobl ifanc o gymunedau BAME penodol.

Bydd ymgynghoriadau'r dyfodol yn mynd i'r afael â hyn. Mae'n bwysig nodi mai'r cam cychwynnol yw hwn mewn sgwrs barhaus â phobl ifanc.

# 2. Ynglŷn â'r ymgynghoriad

## 2.1 Pam wnaethom ni gynnal yr ymgynghoriad?

Yr ymgynghoriad yw'r gweithgaredd cyntaf mewn partneriaeth arloesol rhwng Anthem, y gronfa ar gyfer cerddoriaeth pobl ifanc yng Nghymru, ac Youth Music, yr elusen genedlaethol sy'n buddsoddi yng ngherddoriaeth pobl ifanc yn Lloegr.

Mae'r ddau sefydliad yn rhannu'r un genhadaeth a'r un gred y dylai pob person ifanc gael mynediad at greu cerddoriaeth. Maen nhw eisiau sicrhau bod eu cynlluniau ar gyfer ariannu a phartneriaethau wedi'u cyfarwyddo gan bobl ifanc, yn awr ac yn barhaus. Cam cyntaf yn y sgwrs honno yw'r ymgynghoriad hwn. Caiff y bartneriaeth ei chynorthwyo gan gyllid gan Anthem, ac yn achos Youth Music, drwy gyllid gan chwaraewyr People's Postcode Lottery.

## 2.2 Pwy oedd yn rhan ohono?

Cynhaliwyd y gweithdai ym mis Mai a mis Mehefin 2020. Fe'u trefnwyd gan ymarferydd llawrydd a weithiai i Anthem ac Youth Music (Anita Holford), a goruchwyliwyd yr ymgynghoriad gan Toks Dada (aelod o fwrdd Anthem) a Carol Reid (Cyfarwyddwr Rhaglen, Youth Music). Fe'u hwyluswyd gan Youth Cymru, a ddarparodd aelod o staff at y diben hwn, Anna Arietta, sy'n berson ifanc ac yn gerddor ei hun. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r sawl a fu'n rhan o'r gweithdai a'r dyddiadau:

**Tabl A: Y gweithdai: dyddiadau, partneriaid, nifer y bobl ifanc a'r staff**

*AA – Anna Arietta, WP – Wenna Pritchard, ill dwy o Youth Cymru. AH = Anita Holford, gweithiwr llawrydd*

| Dyddiad | Sefydliad partner / lleoliad y cyfranogwyr | Oedran ac amgylchiadau'r garfan | Nifer | Prif Staff | Staff Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| 5/5/20 | YMCA Abertawe | 10-14 / Cyfranogwyr gwaith ieuenctid | 9 | AA, WP | AH, Gergo Daroczi (YMCA Abertawe), Carol Reid (Youth Music) |
| 12/5/20 | Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro | 12-17 / Cyfranogwyr y gwasanaeth cerdd | 11 | AA, WP | AH |
| 21/5/20 | YMCA Abertawe – grŵp iau, hwyluswyd gan YMCA | 7-9 / Cyfranogwyr gwaith ieuenctid | 5 | Gergo Daroczi | Dim |
| 26/5/20 | Menter Iaith Môn – Gweithdy yn y Gymraeg | 14-18 / Cymraeg iaith gyntaf | 6 | AA, WP | AH, Richard Owen (Menter Iaith Môn) |
| 1/6/20 | Building Bridges a Hijinx Mynwy a Chaerdydd | 20-23 / Ag anableddau dysgu | 5 | AA, WP | AH |
| 2/6/20 | Larynx Entertainment a Thŷ Cerdd, Wrecsam a Chaerdydd | 18-23 / Artistiaid Hip Hop | 6 | AA, WP | AH |
| 4/6/20 | Cyswllt Celf, Powys | 11-13 Gwledig | 3 | AA, WP | AH |

## 2.3 Sut cafodd partneriaid eu dewis, a pha effaith gafodd Covid-19?

I gychwyn, dewiswyd y partneriaid yn bennaf o'r gronfa ddata a grëwyd o ganlyniad i ymarferiad mapio Anthem i addysg cerddoriaeth a'r sector/gweithlu cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru (Tachwedd 2019 – Ionawr 2020). Aeth Anthem ac Youth Music ati i lunio rhestr hir ac wedyn rhestr fer, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o amrywiaeth eang o:

- ardaloedd daearyddol
- mathau o sefydliadau a genres
- demograffeg (oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol).

Er y cyfyngiadau symud yn sgil Covid-19, llwyddodd y rhan fwyaf o'r partneriaid i barhau i chwarae eu rhan, a llwyddodd Anthem ac Youth Music i gynnal cynrychiolaeth amrywiol o bobl ifanc. Fodd bynnag, gwnaeth y cyfyngiadau symud effeithio ar y gweithdai

yn y ffyrdd canlynol:

- tynnodd tri phartner yn ôl o ganlyniad i'r pandemig
- roedd hwyluso'r gweithdai ar-lein yn golygu nad oedd modd iddyn nhw gynnwys cymaint o bobl ifanc â'r disgwyl (hyd at 20 fesul gweithdy)
- nid oedd modd i'r sefydliadau wahodd partneriaid eraill ym mhob ardal i ddod â grŵp bach o gyfranogwyr ychwanegol, yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

Cysylltodd Anita Holford â mwy na 10 o bartneriaid i ddod o hyd i rai yn eu lle, o gyrff ymbarél i grwpiau gwaith ieuenctid i sefydliadau'r celfyddydau perfformio. Ni wnaeth rhai partneriaid posibl ymateb (gyda phobl yn gweithio o gartref, roedd yn rhaid i'r cyswllt cychwynnol fod drwy e-bost neu neges yn y cyfryngau cymdeithasol). Cychwynnwyd trafodaethau ag eraill ond nid oedd modd iddyn nhw helpu, am eu bod ar ffyrlo, heb gyswllt â'r bobl ifanc ar hyn o bryd, neu'n rhy brysur i helpu.

Er y daethpwyd o hyd i ddau yn lle'r rhai a dynnodd allan, roedd rhai bylchau yn y gynrychiolaeth:

- Pobl ifanc o ganolbarth Cymru. Cysylltodd ein partner, Cyswllt Celf, â'r bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw, ynghyd â mwy na 12 o sefydliadau a grwpiau yng nghanolbarth Cymru a'r cyffiniau, yn amrywio o grwpiau cerddoriaeth i grwpiau ieuenctid. Er y cysylltwyd â llawer, tri o bobl ifanc yn unig wnaeth gymryd rhan yn eu gweithdy ac roedden nhw o'u carfan yn Wrecsam.

- Pobl ifanc ag anableddau corfforol. Y bwriad gwreiddiol oedd ymgynghori drwy bartner sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig (yn ychwanegol at weithdai Youth Cymru). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl am fod yr ysgolion ar gau.

- Pobl ifanc na chafodd gymryd rhan mewn creu a dysgu cerddoriaeth. Fe geisiom ni bartneru â sefydliadau y tu allan i fyd cerdd ond byddai hyn wedi galw am fwy o amser arweiniol i ddatblygu perthynas.

- Pobl ifanc heb fynediad digidol.

## 2.4 Sut gwnaethom ni gynnal yr ymgynghoriad?

Cynhaliwyd saith gweithdy, gan gynnwys pobl ifanc o wyth sefydliad (gweler yr adran flaenorol). Oherwydd y cyfyngiadau symud yn sgil Covid-19, cynhaliwyd y gweithdai hyn ar-lein gan ddefnyddio Adobe Connect (sy'n galluogi cynnal cyfarfodydd ar-lein, gweminarau a rhith-ddosbarthiadau). Nid oedd modd i'r bobl ifanc weld ei gilydd, ond roedden nhw'n gallu gweld yr hwylusydd. Cawson nhw eu hannog i rannu eu barn a'u profiadau drwy bolau, blwch sgwrsio a thrafodaeth grŵp.

Hwyluswyd chwech o'r gweithdai gan Anna Arrieta (AA) o Youth Cymru, person ifanc a cherddor; ac roedd Wenna Pritchard (WP) yn cynnig cymorth technegol. Hwylusodd Wenna y sesiwn yn y Gymraeg. Roedd Anita Holford (AH), ymarferydd cyfathrebu llawrydd, yn bresennol yn y sesiynau, cyflwynodd wybodaeth am Anthem ac Youth Music, a chynorthwyodd y trafodaethau grŵp. Cynhaliwyd seithfed gweithdy a oedd yn cynnwys cyfranogwyr o YMCA Abertawe (wedi'i hwyluso gan eu gweithiwr ieuenctid) ar Zoom.

Cynigwyd y dewis i bob cyfranogwr gymryd rhan yn Gymraeg. Cynhaliwyd un gweithdy yn Gymraeg, gyda phobl ifanc o Fenter Iaith Môn.

Llenwodd y cyfranogwyr ffurflen gydsynio, a roddai ganiatâd i'r sesiwn gael ei recordio, a ffurflen ddewisol am ddemograffeg. Yn dilyn y gweithdy, derbyniodd pob un ohonyn nhw daleb o £10 i ddiolch.

Roedd y sesiynau'n cynnwys y gweithgareddau canlynol:


**Tabl B: Cynllun sesiwn**

| Gweithgaredd | Disgrifiad |
|---|---|
| Torri'r garw | Gofynnwyd i'r cyfranogwyr rannu eu henw, rhagenw, oedran a hoff artist yn y blwch sgwrsio. |
| Cytundeb Grŵp | Dangoswyd cytundeb grŵp ar y sgrin drwy gydol y sesiwn. Cafodd hwn ei adrodd a'i esbonio gan yr hwylusydd ar ddechrau'r sesiwn. Dyma oedd y cytundeb: Dim barnu * Byddwch yn barchus tuag at eraill – bydd ymddygiad amhriodol yn golygu y cewch eich tynnu o'r sesiwn * Cyfrannwch eich syniadau * Gofynnwch gwestiynau * Cyfrinachedd – peidiwch â rhannu cynnwys o'r sesiwn. Ac unrhyw wybodaeth a fydd yn cael ei rhannu ac a allai olygu eich bod mewn risg, bydd yn rhaid i mi gyfeirio hynny at fy swyddog arweiniol diogelu. Byddaf yn dweud wrthych os bydd yn rhaid i mi wneud hyn * Byddwch yn agored a gonest * Gwrandewch ar eraill * Mynnwch hwyl |
| Beth yw eich hoff genre? | Cafodd hyn ei ateb drwy lenwi pôl neu drwy deipio eu hateb yn y blwch sgwrsio. |
| Ynglŷn ag Anthem ac Youth Music | Dangosodd Anita Holford gyflwyniad gweledol byr ar PowerPoint ac esboniodd gefndir yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut byddai barn y bobl ifanc yn ffurfio gwaith Anthem ac Youth Music yng Nghymru yn y dyfodol. |
| Teithiau cerddorol | Ymarferiad myfyrio – mae amlinelliad manwl i'w weld yn yr adroddiad hwn. |
| Cwestiynau, polau | Cyfres o gwestiynau, trafodaethau a pholau, a gaiff eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn. |
| Gwerthusiad | Gofynnwyd i'r bobl ifanc ymateb i ddau gwestiwn, ar raddfa o 1 i 10: Faint wnaethoch chi fwynhau'r sesiwn? Pa mor gyfforddus oeddech chi'n teimlo i rannu eich barn a chyfrannu? Ac wedyn gofynnwyd:<br>Dwedwch wrthym yn y blwch sgwrsio un peth y gallem ni wneud i'w wella erbyn y tro nesaf. |
| Diolch | Diolchwyd i'r bobl ifanc am gymryd rhan, a dwedwyd wrthyn nhw sut i hawlio eu talebau. |

# 3. Beth ddwedodd y bobl ifanc wrthym ni

## 3.1 Hoff genres

Gofynnwyd hyn fel rhan o'r gweithgareddau cynhesu a thorri'r garw. Ymatebodd y bobl ifanc naill ai drwy lenwi pôl neu drwy deipio eu hatebion yn y blwch sgwrsio. Roedd eu diddordebau cerddorol yn amrywiol ac nid oedden nhw o anghenraid yn gysylltiedig â sut/beth oedden nhw'n dysgu:




## 3.2 Teithiau cerddorol

Cymerodd y cyfranogwyr 10 munud i ysgrifennu a/neu luniadu eu taith gerddorol hyd yma, ac wedyn ei rhannu gyda gweddill y grŵp (drwy'r blwch sgwrsio neu'r meicroffon). Fe'u gwahoddwyd i ymateb i'r cwestiynau a'r ysgogiadau canlynol, neu i greu taith ym mha bynnag ffordd a oedd fwyaf addas iddyn nhw:

1. Beth yw eich atgof cerddorol cynharaf?
2. Beth oedd y foment dyngedfennol i chi?
3. Sut ydych chi'n ymwneud â cherddoriaeth ar hyn o bryd? (os nad ydych chi – beth yw'r rhwystrau?)
4. Beth ydych chi eisiau gwneud yn y dyfodol?

Rhannodd Anna Arrieta ei thaith gerddorol hithau i roi esiampl, ynghyd â rhannu darn o bodlediad lle'r oedd y cerddor Little Simz yn siarad am ei thaith gerddorol hithau a sut y bu'n ymwneud â gwaith ieuenctid.[1] Mae'r canlynol yn grynodeb o'u cefndiroedd cerddorol, wedi'u strwythuro yn ôl prosiect a chyda rhai dyfyniadau sy'n dangos themâu a ddaw i'r amlwg ar draws yr ymgynghoriad.

**Cyswllt Celf**

Roedd tri o bobl ifanc yn ymwneud â gweithgareddau traddodiadol gan gynnwys chwarae mewn cerddorfeydd a bandiau pres, cael gwersi cerdd preifat a chyflawni graddau cerdd. Roedd eu dyheadau cerddorol i'r dyfodol yn cynnwys astudio TGAU Cerddoriaeth, dysgu chwarae'r trombôn, dringo ysgol y graddau a chwarae mewn band jazz.

*"gwrando ar dad-cu yn chwarae'r bas dwbl [...] Roedd yn cŵl cael ei wylio [...] ac roeddwn i eisiau gwneud hynny hefyd."*

[1] Podlediad "Hip Hop Saved My Life" - https://play.acast.com/s/hiphopsavedmylife/bec0b584-b581-4be6-8706-a6770b04fce1

*"Roedd yr ysgol yn darparu gwersi cerdd ond doedden nhw ddim yn gwneud bas dwbl, felly es i i gyfeiriad cwbl wahanol."*

**Building Bridges / Hijinx**

Roedd y bobl ifanc yn ymwneud â cherddoriaeth mewn amryw ffyrdd: sesiynau cerdd yn yr ysgol, astudio Safon Uwch Cerddoriaeth, ymwneud â Hijinx, dysgu chwarae'r gitâr, canu mewn corau ac ysgrifennu caneuon gyda ffrindiau. Roedd dau heb fod yn ymwneud â cherddoriaeth o gwbl ar hyn o bryd.

*"Rwy'n gallu deall fy hwyliau'n well […] mae'n hanfodol i ddeall dyheadau fy nghalon."*

*"Ro'n i'n ei gweld yn haws mynegi fy hun drwy gerddoriaeth."*

*"Byddwn i'n dwlu cael creu cerddoriaeth a chanu mewn band."*

*"Rwy'n gobeithio gallu rhannu caneuon/cerddoriaeth gyda'r byd a helpu eraill i'w mynegi eu hunain drwy gerddoriaeth."*

**Larynx Entertainment / Tŷ Cerdd**

Roedd llawer o'r bobl ifanc hyn wedi teimlo eu bod wedi'u cau allan o weithgareddau cerddoriaeth yn eu blynyddoedd ysgol, ac nad oedd eu diddordebau cerddorol yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, dim ond dechrau darganfod eu galluoedd cerddorol oedden nhw ar ôl gadael yr ysgol. Thema allweddol oedd pwysigrwydd cymorth ffrindiau a chyfoedion. Roedden nhw'n teimlo'n angerddol ynglŷn â'u cerddoriaeth, ond roedd llawer yn ansicr ynglŷn â'u cynlluniau i'r dyfodol ac yn sôn am rwystrau ariannol.

*"Y foment dyngedfennol i mi oedd ym mis Hydref, pan ddechreuodd [ffrindiau] ddechrau rapio mewn sgwrs grŵp fel jôc ac yn y diwedd fe wnes i lanlwytho cân ar ôl hynny, ond roedd yr adborth yn go dda ac ro'n i'n dwlu ar yr holl broses – roedd recordio, ysgrifennu, golygu a gweld yr adborth gan bobl yn wych."*

*"Pan oeddwn i'n ifanc ac yn dawnsio stryd, roeddwn i'n dwlu ar ddysgu symudiadau newydd wrth wrando ar gerddoriaeth."*

*"Dwlu ar ddawnsio ac wedyn gwrando ar wahanol genres."*

*"Ar y funud rwy'n lanlwytho ar Soundcloud ac YouTube ond rwy'n bwriadu mynd ar Spotify a falle dechrau recordio clipiau fideo hefyd. Rwy wir eisiau dal ati ac efallai gwneud bywoliaeth ohono ryw ddydd hyd yn oed."*

**Menter Iaith Môn**

Roedd yr holl bobl ifanc yn ymwneud yn ymarferol â cherddoriaeth, ac mewn ffyrdd amrywiol gan gynnwys bandiau, corau, cerddorfeydd ieuenctid (sydd wedi darparu cyfleoedd i deithio a pherfformio'n rhyngwladol), cyflawni graddau cerdd a chystadlu mewn cystadlaethau. Roedd y teulu'n chwarae rhan fawr. Gwnaeth pob un enwi dyhead cerddorol penodol ar gyfer y dyfodol.

*"Mae cerddoriaeth bob amser wedi bod yn rhan fawr o fy mywyd, roedd cerddoriaeth yn chwarae yn y tŷ bob amser."*

*"Fy atgof cerddorol cyntaf oedd gwrando ar Elvis a siarad efo taid a chlywed am Chuck Berry, The Beatles, The Rolling Stones a Bob Dylan."*

*"Yn y dyfodol, dwi eisiau mynd i goleg cerdd a drama yng Nghaerdydd i astudio Cerddoriaeth, ac mae gen i ddiddordeb mewn technoleg cerdd hefyd. Mewn prosiect bach ar yr ochr, mae sioeau cerdd yn apelio ataf i felly byddai mynd i'r ... West End yn wych."*

*"Yn y dyfodol dwi eisiau mynychu'r BIMM [The British and Irish Modern Music Institute] ym Manceinion i astudio cerddoriaeth ac wedyn gobeithio bod yn gynhyrchydd cerddoriaeth."*

**Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro**

Roedd y cyfranogwyr yn ymwneud yn ymarferol â cherddoriaeth, gan gynnwys gwersi yn yr ysgol, bod yn rhan o gerddorfeydd a chorau (gan gynnwys ar lefel sirol a chenedlaethol), Eisteddfod yr Urdd, a pherfformio mewn sioeau ysgol. Roedd rhai wedi dysgu eu hunain i chwarae offerynnau ac wedi helpu eraill i ddysgu. Roedd bron i bob un yn sôn am gael cymorth gan aelodau'r teulu ers oedden nhw'n ifanc, gan gynnwys mynd i sioeau cerdd a chyngherddau. Siaradodd llawer am eu dyheadau i astudio a dilyn gyrfaoedd mewn cerddoriaeth.

*"Rwy eisiau ysbrydoli pobl i gael yr un cyfleoedd a gefais i."*

*"Sa i'n cofio peidio â chael cerddoriaeth yn fy mywyd."*

**YMCA Abertawe (grŵp iau)**

Cyfeiriodd pob un o'r bobl ifanc at YMCA Abertawe wrth sôn am sut maen nhw'n ymwneud â cherddoriaeth, yn amrywio o ddysgu'r piano yno i ddefnyddio technoleg cerdd i ysgrifennu caneuon gyda'u gweithiwr ieuenctid. Bu rhai yn weithgar mewn gwersi a pherfformiadau. Roedden nhw'n cyfeirio at brofiadau cynnar perfformwyr a fu'n ysbrydoliaeth, ac roedd gan rai ddyheadau ar gyfer dyfodol mewn cerddoriaeth.

**YMCA Abertawe (grŵp hŷn)**

Siaradodd y bobl ifanc am bwysigrwydd gwaith ieuenctid o ran eu galluogi i gael mynediad at gyfleoedd cerddorol. Roedden nhw'n ymwneud â cherddoriaeth y tu allan i YMCA hefyd, gan gynnwys mewn côr, yn yr eglwys, cerddorfa ieuenctid a chystadlaethau lleol.

*"[Fe gefais i] wersi piano am 3 blynedd a gadael am nad oedd fy athro yn hoffi'r ffaith 'mod i'n gallu chwarae gan ddilyn fy nghlust ac nid darllen, a wnes i ddim unrhyw raddau."*

*"Pan oeddwn i'n dysgu rapio, roeddwn i eisiau creu fy ngherddoriaeth fy hun ac roeddwn i'n defnyddio GarageBand ar fy ffôn. Dechreuais yn YMCA gyda Gerg i gael gwersi pellach. Hobi ydi e nawr ond hoffwn i fod yn gynhyrchydd neu'n rapiwr."*

## 3.3 Sut mae cerddoriaeth yn eich ardal leol chi?

Pleidleisiodd y cyfranogwyr mewn pôl am gerddoriaeth yn eu hardal leol, gan ddewis un o'r canlynol:

- Does dim byd yn digwydd a does dim cyfleoedd
- Mae rhai pethau'n digwydd a rhai cyfleoedd
- Mae llawer yn digwydd a llawer o gyfleoedd.

Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro oedd yr unig grŵp lle y dywedodd y cyfranogwyr bod 'llawer yn digwydd' (pum pleidlais). Meddai dau berson bod 'rhai pethau'n digwydd' ac meddai dau fod 'dim byd yn digwydd'.

Meddai cyfranogwyr o Gyswllt Celf a Building Bridges/Hijinx oll bod 'rhai pethau'n digwydd' (cyfanswm o saith pleidlais). Tebyg oedd yr ymateb o Fenter Iaith Môn – roedd pob un o'r chwech yn teimlo'n gyffredinol bod 'rhai pethau'n digwydd'. Medden nhw fod pobl ifanc yn frwdfrydig ynglŷn â chreu eu gigs eu hunain ym Môn a chyfeiriwyd at ŵyl, Gŵyl Cefni.

Yn achos Larynx Entertainment, meddai tri fod 'dim byd yn digwydd' ac meddai pedwar bod 'rhai pethau'n digwydd'. Roedd grŵp hŷn YMCA hefyd yn rhanedig rhwng 'dim byd' a 'rhai pethau' (dau a dau).

## 3.4 Beth wnaeth eich helpu chi?

Cafodd y cyfranogwyr eu rhannu'n grwpiau llai. Rhoddwyd chwarter awr iddyn nhw drafod beth oedd wedi'u helpu i greu a dysgu cerddoriaeth. Roedd hwylusydd yn cymryd nodiadau ym mhob ystafell. Wedyn rhannwyd adborth â'r grŵp cyfan a rhoddwyd y cyfle i'r cyfranogwyr drafod ymhellach. Dyma grynodeb:

**Cyswllt Celf**

- Cyfleoedd ym maes cerddoriaeth yn yr ysgol o oedran ifanc.
- Aelodau'r teulu a oedd yn chwarae offerynnau cerdd ac yn darparu anogaeth a chefnogaeth.
- Cymryd rhan mewn cerddorfeydd ieuenctid, gan gynnwys perfformio mewn cyngherddau a chyfleoedd eraill.
- Roedden nhw'n cyfeirio at yr hwyl a'r mwynhad gawson nhw o fod yn rhan o gerddorfeydd a grwpiau cerdd a bod hyn yn ffactor yn y ffaith eu bod yn parhau i ymwneud â cherddoriaeth: "*rydych chi'n chwarae cerddoriaeth hwyliog a phleserus", "awyrgylch hwyliog i fod ynddo", "mae'r tiwtoriaid yn ei wneud yn bleserus, maen nhw'n eich helpu chi i wella os ydych chi'n gwneud pethau'n anghywir".* Cyfeiriodd un person ifanc hefyd at ddarnau modern 'hwyliog' (gan gynnwys Pirates of the Caribbean, Coldplay a David Bowie) roedden nhw'n gallu chwarae yno, a oedd yn golygu eu bod nhw'n dal ati i ddysgu eu hofferyn.
- Cyfeiriodd un at bwysigrwydd dewis: *"Y gallu i roi cynnig ar offerynnau newydd fel bod modd iddyn nhw archwilio a darganfod beth maen nhw'n hoffi, fel eu bod nhw'n gwybod a ydyn nhw eisiau buddsoddi mewn offeryn newydd".*

**Building Bridges / Hijinx**

- Cyfleoedd ym maes cerddoriaeth yn yr ysgol o oedran ifanc.
- Cyfeiriodd y grŵp yma'n benodol at lwybrau llai amlwg i gerddoriaeth, e.e. theori, diddordeb mewn hanes a'r cyswllt â darnau o gerddoriaeth glasurol.
- Roedd dulliau mynediad mwy traddodiadol yn cynnwys: rhaglenni cyfrifiadur a thechnoleg; soniodd un person ifanc am ddysgu cerddoriaeth i'w hun gan ddefnyddio apiau a fideos; gwersi canu, a chorau – nododd y bobl ifanc fod hyn wedi bod o gymorth i'w llesiant a'u hyder: *"fe wnaeth ymuno â'r côr fy helpu i deimlo nad oeddwn i'n cynhyrfu gymaint". "Fe wnaeth bod yn rhan o gôr fy helpu i deimlo'n fwy cyfforddus i ganu'n gyhoeddus ac o amgylch pobl eraill".*
- Gall ymwneud â gweithgareddau creadigol eraill (e.e. Theatr Hijinx) ddarparu mynediad i gerddoriaeth i bobl ifanc na fyddai o bosibl yn cymryd rhan fel arall: *"Ar wahân i'r gerddoriaeth sy'n rhan o fy ngrŵp drama, dydw i ddim yn gwneud unrhyw fath o gerddoriaeth mewn unrhyw ffurf yn gyhoeddus. Dim ond yn fy ystafell, ond dwi eisiau creu cerddoriaeth".*

**Larynx Entertainment / Tŷ Cerdd**

- Gan adlewyrchu ar brif thema eu teithiau cerddorol, siaradodd y bobl ifanc hyn unwaith eto am bwysigrwydd cael eu hamgylchynu gan bobl eraill sy'n creu cerddoriaeth: *"Fe wnes i ddod o hyd i Archie am ein bod ni yn yr un dosbarth yn y coleg. Fe sylwais i ei fod yn ysgrifennu geiriau caneuon, o hyd, a gofynnais i a allwn i eu darllen nhw. Roedd yn ddiddorol. Fe ofynnais i iddo fe eu rapio nhw i fi. Roedd yn angerddol iawn, ac roedd y ffordd roedd e'n rhoi geiriau at ei gilydd, yn rhoi synau at ei gilydd, yn dda iawn. Fe ofynnais i iddo fe pam nad oedd e wedi rhyddhau caneuon. Fe ddwedodd e pan fydd e'n 18, fe gaiff e arian i roi stiwdio at ei gilydd. Fe ddechreuais i ysgrifennu geiriau gydag e. Trodd yn 18, a phrynu allweddellau, gliniaduron, seinyddion, meics, a dechrau gweithio ar gerddoriaeth, a minnau'n ei wylio. Dyma fe'n gwylio fideos YouTube am sut i newid eich llais, traw gwahanol, a meistroli hynny. Felly dyma fi'n dweud, gaf i roi cynnig arni a gweld 'mod i'n go dda arni. Rwy'n gwybod sut rwy eisiau swnio, a'r artistiaid rwy'n eu hoffi".*
- Fe wnaeth cymorth ffrindiau helpu'r bobl ifanc i ddatblygu hyder, hunan-gred a bod yn benderfynol: *"beth wnaeth fy helpu i oedd fy 'styfnigrwydd, roeddwn i'n aros am yr amser iawn i gamau 'mlaen. Roedd diffyg hyder. Roeddwn i'n perffeithio fy sŵn fy hun. Roeddwn i'n chwarae gitâr ac ysgrifennu'n ddiddiwedd. Fe wnaeth fy nghriw bach o ffans, sef fy ffrindiau, fy helpu i gyda'r hyder oedd ei angen arna i i gredu ynof i fy hun. Peth arall wnaeth fy helpu oedd y bobl fues i'n ymwneud â nhw. Mae gen i lawer o ffrindiau cerddorol, mae ganddyn nhw ddiddordeb yn y diwydiant, ac fe dyfodd y rhwydwaith yna. Fe wnes i ddechrau cwrdd â rhagor o bobl gerddorol, a dechrau dysgu ganddyn nhw".*
- Roedd ffactorau eraill yn cynnwys ysbrydoliaeth gan artistiaid eraill (gan gynnwys gwylio rhaglenni dogfen), cefnogaeth gan Larynx Entertainment, ac ymwneud â chelfyddydau creadigol eraill: "*Ro'n i ond yn gwneud dawnsio stryd a cherddoriaeth a churiadau, cyfri'r curiadau"*.
- Meddai un person ifanc fod ymwneud â cherddoriaeth yn dabŵ tra'n tyfu fyny: *"roedd yn dabŵ yn fy nheulu i oherwydd cefndir teuluol o Nigeria. Roeddwn i'n gwneud Safon Uwch, fe wnaeth prif swyddog fy nghlywed i'n canu, a fy ngwthio i wneud perfformiadau. Fe wnaeth cystadleuaeth untro 5 mlynedd wedyn fy helpu i'n fawr. Anogaeth gan fy nghyfoedion, rhywun yn dangos ffydd ynof i i fy helpu. […] Roedd yn frawychus, yn nodweddiadol o'r rhan fwyaf o deuluoedd Affricanaidd, roedd yn rhaid i mi brofi iddyn nhw nad oeddwn i am droi cefn ar fy moesau. Mae rhegi a chynrychiolaeth yn ofid iddyn nhw".*
- Bu'r grŵp yma'n benodol yn siarad llawer am rwystrau ariannol: *"Pan ydych chi'n trio dysgu offerynnau mae'n rhy ddrud, ond dydi'r fersiynau rhad o'r gwersi ddim o ansawdd da. Gall arian fod yn rhwystr o ran ehangu eich cwmpas cerddorol. Gall fod ar blatfformau ffrydio fod yn ddrud hefyd". "Mae prydlesu curiadau a meddalwedd recordio yn ddrud – neu mae'n rhaid i chi ddefnyddio rhai eraill, rhatach, sydd ddim yn cynhyrchu'r sŵn rydych chi ei eisiau".*

**Menter Iaith Môn**

- Thema allweddol ar gyfer y grŵp hwn oedd pwysigrwydd cwrdd â cherddorion eraill a dysgu ganddyn nhw: *"Cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd".*
- Thema arall oedd dod i gysylltiad ag amrywiaeth o gyfleoedd: yn cynnwys bod mewn bandiau, creu eu cerddoriaeth eu hunain, mynd i gigs a chymryd rhan mewn gweithdai cerdd er mwyn rhoi cynnig ar bethau gwahanol, cymryd rhan yn yr Urdd, yn ogystal â chefnogaeth teulu a ffrindiau: *"Dod yn rhan o weithdai Boxbox a'r Marathon Roc. Hoffi rhoi cynnig ar bethau a chyfathrebu â bandiau eraill". "Ysgrifennu cerddoriaeth gyda gwahanol bobl. Mwy o ysgrifennu creadigol".*

**Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro**

- Cyfeiriodd llawer o'r bobl ifanc at y cymorth a'r cyfleodd gawson nhw gan yr ysgol a'r gwasanaeth cerdd, gan gynnwys cystadlaethau, cyngherddau, cyfleoedd i deithio a chymryd rhan yn yr Eisteddfod. Mae rhwydwaith cerddoriaeth da yn yr ardal hefyd, ac unwaith eto roedd teulu yn bwysig: *"Cerddorfa ac ensembles y sir – mae'r holl athrawon yn barod i hwyluso a phrynu offerynnau." "Cymuned dda o gyfansoddwyr caneuon yn Sir Benfro." "Llawer o nosweithiau meic agored a chyfleoedd yn Sir Benfro – pobl hŷn a all ddylanwadu arnaf i a rhoi arweiniad". "Adnabod pobl / cerddorion eraill a chael cymuned – rydych chi eisoes wedi clywed am bobl pan fyddwch chi'n cwrdd â nhw".*

**YMCA Abertawe (grŵp hŷn)**

- Siaradodd llawer am y cymorth a'r cyfleoedd gawson nhw drwy eu gweithiwr ieuenctid, a oedd yn cynnwys y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd, cael defnyddio stiwdio recordio a thechnoleg cerdd, a chael perfformio mewn digwyddiadau. Roedden nhw hefyd yn atgyfnerthu cymorth ac anogaeth ffrindiau a theulu.

- Cyfeiriodd nifer at bwysigrwydd dewis a mynegiad: *"Roedd dysgu llwyth o ffyrdd gwahanol i'w wneud yn cŵl. Roeddwn i'n gallu dod o hyd i beth oeddwn i'n hoffi fwyaf ac yn dda arno." "Gallu fy mynegi fy hun a fy stori drwy eiriau caneuon a rap".*

- Roedden nhw hefyd yn sôn am y canlynol: *"Gwrando ar gerddoriaeth gan artistiaid dwi'n eu hoffi". "Cael artistiaid sy'n ysbrydoli fy genre". "Cael artistiaid sy'n berthnasol i mi (fel artistiaid rap)". "Gwrando ar deithiau a chyfweliadau artistiaid eraill".*

**YMCA Abertawe (grŵp iau)**

- Siaradodd y bobl ifanc yn bennaf am gymorth teulu, a phrofiadau a oedd wedi'u helpu i ddatblygu eu hyder. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn pum diwrnod o dreial gyda Stagecoach a pherfformio mewn sioe ysgol: *"Pan oeddwn i ym Mlwyddyn 3, roedd gennym ni sioe ddoniau, ac mi wnes i ganu o flaen dau ddosbarth cyfan ac fe wnaeth hynny wella fy hyder". "Mae'r teulu yn helpu i fy ysgogi".*

## 3.5 Beth allai eich helpu chi mwy?

Cafodd y cyfranogwyr eu hannog i ymateb i'r cwestiwn hwn gan ddefnyddio eu meicroffonau neu'r blwch sgwrsio.

**Cyswllt Celf**

- Cael y cyfleoedd i gymryd rhan mewn sioeau doniau a chystadlaethau.

- Gwell darpariaeth cerddoriaeth yn yr ysgol: *"Mae rhai [ysgolion] cynradd heb wersi ar wahân ar gyfer cerddoriaeth, ond yn y gwersi hynny y bydd pobl yn darganfod a ydyn nhw'n hoffi chwarae cerddoriaeth neu beidio. Felly fe fyddwn i'n gwneud yn siŵr bod gan bob ysgol wers ar wahân ar gyfer cerddoriaeth".*

- Unwaith eto, cyfeiriwyd at y syniad o ddewis ar oedran ifanc: "*Bydd rhai pobl yn dewis offeryn i'w chwarae yn yr ysgol gynradd yn unig, ond os nad oes gan yr ysgol honno ddigon o amrywiaeth o offerynnau i ddewis o'u plith, fyddan nhw byth yn cydio mewn offeryn hyd yn oed".*

- Gwneud i gerddoriaeth fod yn fwy hygyrch a fforddiadwy; pobl ifanc yn cael mynediad i offerynnau am bris gostyngol ac yn cael y cyfle i archwilio gwahanol offerynnau cyn penderfynu buddsoddi mewn un.

**Building Bridges / Hijinx**

- Thema allweddol oedd y rhwystrau'r oedd pobl ifanc ag anableddau dysgu ac awtistiaeth wedi'u profi. Soniwyd am fod angen gofodau diogel lle fydden nhw'n teimlo'n gyfforddus a lle gallen nhw ddysgu a chreu cerddoriaeth mewn grwpiau bach neu ar sail un-i-un: *"Rwy'n gweld bod rhai grwpiau yn rhy fawr i mi, yn rhy swnllyd a llachar a gall sefyllfaoedd cymdeithasol fod yn anodd. Mae lleoedd fel Hijinx yn wych." "Efallai nad yw rhai pobl sydd ag anawsterau dysgu yn teimlo'n hyderus i wneud neu greu cerddoriaeth. Dydw i ddim yn hoffi cymdeithasu â llwythi o bobl am nad yw'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel iawn. Hefyd, dim ond un glust sydd gen i felly dydw i ddim yn hoff iawn o gerddoriaeth uchel na goleuadau llachar".*

- Dyma rai gweithgareddau a allai helpu: *"Bod rhywun ar gael i ofyn cwestiynau iddyn nhw am gerddoriaeth, sut i greu eich cerddoriaeth eich hun, ffordd i bobl ag anawsterau dysgu ddeall a dysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu cerddoriaeth". "Cael lle diogel i gwrdd â phobl eraill sy'n mwynhau cerddoriaeth ac yn dymuno archwilio cerddoriaeth. Un-i-un i bobl sy'n ei chael yn anodd bod o amgylch mwy na phedwar o bobl." "Bydd yn ddefnyddiol i'r sefydliadau hyn weithio gydag awdurdodau lleol i dargedu'r rhan fwyaf o bobl a chyfeirio gwasanaethau atyn nhw a chael yr hyn yr hoffen nhw gael o ran cerddoriaeth a phan fydd hynny wedi'i wneud mi wna i ymuno â grŵp a chychwyn arni. Dydw i ddim wedi clywed am grŵp cerddoriaeth o'r blaen ac mi hoffwn i ymuno ag un".*

- Cyfleoedd yn yr ardal leol hefyd: *"Hoffwn i gael clwb neu grŵp cymdeithasol efallai sydd yn fy ardal i neu ardal agosach achos mae'n rhaid i mi fynd i'r dinasoedd i gael unrhyw gyfleoedd ar hyn o bryd". "Yr unig ffordd y gallaf i fynd i leoedd cerddoriaeth yw os gall fy rhieni neu fy chwaer fynd â mi".*

**Larynx Entertainment / Tŷ Cerdd**

- Mwy o addysg a chyfleoedd cerddoriaeth ehangach mewn ysgolion (a thu hwnt), a bod â fwy o feddwl agored o ran genres a chwaeth: *"Llai o farnu o ran eich ymagwedd at gerddoriaeth. Cymaint o strwythur yn cael ei ddefnyddio i ffitio genres i mewn. Yn y genhedlaeth iau, mae llawer o asio genres digwydd, ond mae'n cael ei roi o dan y carped, ac yn cael ei ystyried yn sŵn tanddaearol". "Mwy o addysg yn yr ysgol uwchradd am ba lwybrau sydd ar gael i artistiaid a phobl greadigol allu mynegi eu crefft, mae cymaint o rolau nad yw pobl yn gwybod amdanyn nhw". "Yr ysgol yn gyfan, rwy'n teimlo y caiff ei esgeuluso gymaint fel y bydd pobl yn yr ysgol uwchradd sydd eisiau dilyn y llwybr*

*yna yn teimlo eu bod wedi'u bwrw allan. Os nad yw'r ysgol yn ei ystyried o ddifri, 'fydd neb yn gwneud".* Teimlai un person ifanc y gallai hyd yn oed y bobl sydd i fod i helpu artistiaid i dyfu fod yn feirniadol neu beidio â chefnogi genres gwahanol, a bod angen caniatáu i bobl ifanc arbrofi â sŵn.

- Gwneud i gerddoriaeth fod yn fwy hygyrch a fforddiadwy. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ddigwyddiadau a chyfleoedd yn lleol, i osgoi costau teithio.
- Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys: mynediad i stiwdios recordio lleol, mentoriaid, arweiniad ar sut i hyrwyddo cerddoriaeth. Awgrymodd un cyfranogwr sefydlu Cynllun Llysgenhadon, yn debyg i fentrau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) presennol, i ysbrydoli pobl ifanc a darparu mwy o wybodaeth am gyfleoedd a gyrfaoedd.

**Menter Iaith Môn**

- Byddai mwy o gyfleoedd / cyfleoedd gwahanol i ddysgu am gerddoriaeth yn eu helpu: *"Deall theori cerddoriaeth yn well" / "Dysgu sut i chwarae mwy o offerynnau" / "Dysgu am wahanol dechnegau cyfansoddi" / "Dysgu mwy am recordio".*
- Trafodwyd gwneud i gerddoriaeth fod yn fwy hygyrch a fforddiadwy: gwnaed sylwadau bod offer cerddorol a mynd i stiwdio recordio yn ddrud a bod hyn yn lleihau nifer y bobl ifanc a allai ryddhau eu cerddoriaeth eu hunain.
- Rhagor o gigs a gwyliau, gyda rhagor o artistiaid o dde Cymru yn chwarae yn y gogledd (ac fel arall)
- Mwy o wybodaeth, gan gynnwys sut i gynhyrchu a hyrwyddo eu cerddoriaeth eu hunain a phryd mae gigs yn cael eu cynnal.

**Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro**

- Mwy o gyfleoedd yn lleol: *"Rhagor o bethau yn y sir am nad oes cymaint fan hyn o gymharu â dinasoedd"* ond hefyd digwyddiadau preswyl a chyfleoedd yn bellach i ffwrdd.
- Thema a godai drosodd a thro oedd bod angen i gerddoriaeth gael ei gwerthfawrogi mwy mewn ysgolion: *"Mae rhai'n gwgu ar fy mrodyr am adael y dosbarth i fynd i wersi cerddoriaeth, felly'r ysgolion yn gwneud amser ar gyfer gwersi ac annog pobl i ddysgu a chreu cerddoriaeth".*
- Cysylltiadau â cherddorion proffesiynol: *"Cael pobl yn y diwydiant i ddod i lawr i siarad gyda ni am sut i fynd i mewn i'r diwydiant a gallai ein helpu ni i wneud cysylltiadau"*. "*Rhagor o gyfleoedd i chwarae repertoire anoddach a chael yn agosach at gerddorfeydd proffesiynol (fe wnes i chwarae ar y cyd â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn eu cyngerdd Gŵyl Ddewi eleni*".

**YMCA Abertawe (grŵp hŷn)**

- Rhagor o gyfleoedd i ddysgu cerddoriaeth.
- Cymorth i symud ymlaen yn broffesiynol: *"Gwybod sut i gael eich cerddoriaeth wedi'i chynhyrchu a sut i gael eich adnabod".*
- Rhagor o gyfleoedd am ddim a fforddiadwy; meddai un person ifanc fod ysgol gerdd wedi ymweld â'u hysgol, ond nid oedd modd iddyn nhw gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol gerdd oherwydd y gost.

**YMCA Abertawe (grŵp iau)**

- Rhagor o gyfleoedd i ymarfer a pherfformio.
- Cymorth gweithwyr ieuenctid a oedd wedi'u galluogi i berfformio ar lwyfan am y tro cyntaf.


## 3.6 Ar beth ddylem ni ganolbwyntio?

Pôl oedd y gweithgaredd terfynol hwn, a'r bwriad oedd crynhoi'r cyngor y byddai'r cyfranogwyr yn ei roi i Anthem ac Youth Music. Roedd modd iddyn nhw ddewis mwy nag un opsiwn. Gallai'r bobl ifanc hefyd ychwanegu eu hymatebion eu hunain yn y blwch sgwrsio.

**Roedd pob opsiwn yn bwysig i'r cyfranogwyr, ond yr un a ddenodd y nifer fwyaf o bleidleisiau (30) oedd 'lleoedd i greu cerddoriaeth'.**

Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd oedd cyfleoedd i berfformio (26 pleidlais); ac wedyn cyfleoedd i gwrdd â cherddorion eraill wyneb yn wyneb (23 pleidlais); cymorth gyda swyddi/gyrfaoedd/dyfodol (19 pleidlais); ac yn olaf dysgu cerddoriaeth (17 pleidlais) a chyfleoedd i gysylltu ar-lein (11 pleidlais).

**ALLWEDD:**
**0 - Dysgu cerddoriaeth gan rywun (e.e. tiwtor):** ei gwneud yn haws i chi ddysgu/creu cerddoriaeth a gwella ar wneud hynny
**1 - Lleoedd i greu cerddoriaeth:** darparu lleoedd lle gall pobl ifanc fynd i gwrdd â cherddoriaeth ifanc eraill, a dysgu, creu, ymarfer a recordio cerddoriaeth, neu eich hysbysu am leoedd o'r fath
**2 - Cyfleoedd i berfformio:** gigs, gwyliau, cyngherddau lle gallwch chi berfformio o flaen cynulleidfa
**3 – Swyddi/gyrfaoedd/dyfodol:** help gyda chyfleoedd profiad gwaith, cysylltiadau, dysgu am swyddi/gyrfaoedd cerddoriaeth, deall sut gallwch chi greu dyfodol mewn cerddoriaeth
**4 - Cyfleoedd i gwrdd** â cherddorion ifanc eraill wyneb yn wyneb
**5 - Cyfleoedd i gysylltu** â cherddorion ifanc eraill ar-lein



# 4. Diolch

Dymuna Anthem, Youth Music ac Youth Cymru ddiolch i’r holl bobl ifanc a gymerodd ran, a’r partneriaid â wnaeth ein rhoi mewn cyswllt â nhw. Maen nhw’n cynnwys y cyfranogwyr canlynol a gytunodd i’w henwau gael eu rhestru yn yr adroddiad hwn:


Lauren Couch
Omotayo Udoh
Alonwy Roberts
Tia Loo
Noah Loo
Makho
Bob Rodger
Megan Thomas Stone
Rain
Kyle Jamie Eldridge
Christine Farr
Rhian Millett
Alvin Kyalo
Nkosi
Chloe Egerton
Jacob Holmes
Ezra O'Connor
Andrew Cook
Tamunodokubo Joshua Whyte
Rhys Lewis
Tomas Mandane
Matthew Roberts
Dillon Morgan
Ianto Evans
Sammy Semaani Rodriguez
Eliza Bradbury
Noah Jenkins
Alonwy Roberts
Elen Maycock
Gwenna Maycock
Michaella
Connor Adams
Caitlyn Arran


# ATODIAD I: Ynglŷn â’r bobl ifanc


*Noder: Mae pob siart yn Saesneg. Roedd holiaduron demograffeg ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ond ymatebodd pob cyfranogwr i’r fersiynau Saesneg – felly Saesneg oedd pob siart a gynhyrchwyd o’r ystadegau.*

## a) Demograffeg

Casglwyd y rhan fwyaf o’r wybodaeth ddemograffig am y cyfranogwyr drwy SurveyMonkey. Roedd yr arolwg yn ddewisol ac ni wnaeth yr holl gyfranogwyr ei lenwi. Derbyniwyd 38 o ymatebion. Casglwyd data am oedran yn ystod y gweithdai, fel rhan o’r gweithgaredd torri’r garw. Derbyniwyd 43 o ymatebion yn y blwch sgwrsio yn ystod y gweithgaredd torri’r garw. Roedd y cyfranogwyr rhwng 7 a 23 oed. Oedran cymedrig y cyfranogwyr oedd 14.7.





Mae hyn yn weddol gynrychioliadol. Mae pob person ifanc yng Nghymru yn dysgu Cymraeg hyd at 16 oed. Mae 28.3% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg (Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020).

Q5 How would you describe your ethnicity – how you see yourself?





Meddai 29% o'r cyfranogwyr eu bod yn Ddu, Asiaidd neu o grŵp ethnig lleiafrifol gwyn arall (gan gynnwys ethnigrwydd deuol); roedd 24% yn Ddu neu Asiaidd.


Yn gyffredinol, mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r 5.9% o'r boblogaeth yng Nghymru sy'n ystyried eu hunain yn BAME (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019)

## b) Amgylchiadau

Q6 Are you entitled to free school meals or in receipt of other state benefit?



Yn ôl Plant yng Nghymru, mae ffigurau a gyhoeddwyd yn 2016 yn dangos bod 29% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae ein ymgynghoriad felly yn tangynrychioli pobl ifanc mewn tlodi.




Mae pobl ifanc sydd ag anabledd corfforol a rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

# ATODIAD II: Ynglŷn â'r sefydliadau

| Sefydliad | Cefndir |
|---|---|
| Cyswllt Celf | Elusen y celfyddydau cyfranogol yw Cyswllt Celf, sy'n seiliedig yn Llanfyllin yn y canolbarth. Mae'n gweithio yng ngogledd Powys, Wrecsam a chymunedau'r ffin gydag ysgolion, plant, ieuenctid, pobl anabl sy'n dysgu a'r gymuned ehangach, a hynny'n aml yn ddwyieithog. https://artsconnection.org.uk/ |
| Building Bridges | Mae Building Bridges yn brosiect i bobl 14-25 oed sydd ag anghenion ychwanegol, yn seiliedig yng Nghanolfan Bridges yn Nhrefynwy, ond sy'n gweithio ledled y wlad. Mae'n cefnogi ac annog pobl ifanc i ymgysylltu yn eu cymunedau lleol: ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol, gwneud ffrindiau, adeiladu hyder a dysgu sgiliau cymdeithasol. http://buildingbridgesproject.org.uk/about.htm |
| Hijinx | Cwmni theatr proffesiynol yw Hijinx sy'n creu theatr gyfoes, ragweithiol sy'n teithio'r byd. Mae'n ymdrechu tuag at gydraddoldeb drwy greu celf ragorol gydag actorion sy'n bobl anabl sy'n dysgu a/neu sy'n awtistig, ar sgrin, ar y stryd, yn y gweithle yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. http://www.hijinx.org.uk/ |
| Larynx Entertainment | Mae Larynx Entertainment yn seiliedig yn Wrecsam ond mae ganddo rwydwaith o gerddorion Hip Hop ledled Cymru. Mae'n eiddo ar y cyd i'r cyfarwyddwyr Dave Acton a Pete Rogers. Mae'n blatfform y cyfryngau sy'n arbenigo mewn hyrwyddo cyfryngau trefol Cymreig gan gynnwys rhannu gwaith artistiaid ar y cyfryngau cymdeithasol, creu cynnwys gydag artistiaid megis fideos rapio rhydd a chreu digwyddiadau byw. https://www.facebook.com/LarynxEntertainment/ |
| Menter Iaith Môn | Mae Menter Iaith Môn yn darparu cyfleoedd sy'n annog holl drigolion yr ynys i ddefnyddio'r Gymraeg a thrwy wneud hynny, eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol, a sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio'r iaith. Mae'n defnyddio cerddoriaeth yn ei gwaith gyda phobl ifanc. https://www.mentermon.com/en/priosectau/menter-iaith-mon/ |
| Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro | Mae Gwasanaeth Cerdd Cyngor Sir Penfro yn addysgu mwy na 2,300 o ddisgyblion yr wythnos yn ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ar amrywiaeth eang o linynnau, chwythbrennau, offerynnau pres ac offerynnau taro yn ogystal â chanu. Y mae hefyd yn cynnal ymarferion wythnosol i saith o ensembles ysgolion cynradd a phum o gerddorfeydd a bandiau sirol ar lefel uwchradd. Caiff cyrsiau a pherfformiadau cyhoeddus tymhorol hefyd eu cynnal i'r ensembles. https://www.pembrokeshire.gov.uk/music-service |
| Tŷ Cerdd | Mae Tŷ Cerdd yn gweithio i hyrwyddo a dathlu datblygiad cerddoriaeth Cymru. Nod yr elusen yw: cyflwyno cerddoriaeth Cymru i gynulleidfaoedd ledled y byd; diogelu gwaddol cerddoriaeth Cymru o'r gorffennol, er mwyn meithrin cerddoriaeth bresennol Cymru a sbarduno datblygiad gwaith cyfansoddi newydd; cynorthwyo cerddorion proffesiynol a rhai nad ydynt yn broffesiynol, perfformwyr a chynulleidfaoedd, i berfformio, cyfansoddi a phrofi cerddoriaeth Cymru. https://www.tycerdd.org/ |
| YMCA Abertawe | Mae YMCA Abertawe yn ddarparwr allweddol Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (i bobl ifanc 11-25 oed) yn Abertawe a'r cyffiniau. Mae ei waith yn canolbwyntio ar bum maes allweddol: Cymorth a Chyngor, Gwaith Teulu, Iechyd a Lles, Hyfforddiant ac Addysg, a Llety. Y mae hefyd yn darparu stiwdio recordio a gwersi cerddoriaeth am ddim i bobl ifanc. https://www.ymcaswansea.org.uk/ |